OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1270

## Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Dull Mynediad, Apelau etc.) (Cymru) 2005

**Diwygio Rheoliadau Gweithdrefnau Apelau**

**13.** Yn rheoliad 22(6) o Reoliadau Gweithdrefnau Apelau (Dyddiad a hysbysiad yr ymchwiliad)—

(a) yn is-baragraff (a), ar ôl "30(3)", mewnosoder—

"neu 38(1)"; a

(b) ar ddiwedd is-baragraff (b), ychwaneger—

"; ac

(c) yn achos apêl o dan adran 38(1) o'r Ddeddf—

(i) cyhoeddi hysbysiad o'r ymchwiliad ar wefan a gynhelir ganddo, a

(ii) onid yw o'r farn nad oes angen hynny mewn achos penodol, ei gwneud yn ofynnol i'r atebydd—

(aa) heb fod yn llai na 2 wythnos cyn y dyddiad a bennir ar gyfer y gwrandawiad, gyhoeddi hysbysiad o'r gwrandawiad mewn un papur newydd neu fwy sy'n cylchredeg yn y gymdogaeth lle y mae'r tir wedi'i leoli, a

(bb) gosod hysbysiad o'r gwrandawiad yn gadarn ar y tir apêl neu ar wrthrych ar neu'n agos at y tir hwnnw a hynny yn y fath fodd fel ei fod yn hollol weladwy a darllenadwy gan aelodau o'r cyhoedd; a rhaid i'r atebydd beidio â symud yr hysbysiad oddi yno, neu beri iddo gael ei symud oddi yno am gyfnod, cyn y gwrandawiad, y gall y Cynulliad Cenedlaethol ei bennu.".